Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ty Baltig House, Sgwar Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Lein Gymorth 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

Cynhadledd cyfraith elusen ym mis Mai

Mae'r rhaglen ar gyfer Cynhadledd Cyfraith Elusen Flynyddol Cymru WCVA wedi'i chyhoeddi. Mae ansicrwydd o'n cwmpas ym mhobman. Mae pawb yn disgwyl toriadau yng ngwariant y sector cyhoeddus ond eto does dim manylion yn cael eu datgelu am eu hamseriad na'u difrifoldeb.

Mae llawer o boeni, llawer o sibrydion, ond dim digon o *ffeithiau* ar sut i ddelio â'r heriau cyllido a rheoleiddio sydd o'n blaenau.

Bydd Cynhadledd yn eich helpu i feddwl, i ystyried y risgiau a rhagweld newidiadau. Bydd hefyd yn cynnig:

- Diweddariad ar gyfraith cyflogaeth
- Arweiniad ymarferol ar reoli risg ac ansolfedd
- Sesiynau grŵp ar ddiogelu data, taliadau i ymddiriedolwyr a gwella llywodraethu
- Cyflwyniad i'r Bwrdd Tribiwnlys Elusennau a'r Bwrdd Safonau Codi Arian.

Bydd Cynhadledd Cyfraith Elusen Cymru yn cael ei chynnal yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar 20 Mai 2010. Cynhelir Cynhadledd yr Ymddiriedolwyr yn Wrecsam ar 11 Tachwedd 2010. Mae ffurflenni archebu ar gyfer y Gynhadledd Cyfraith Elusen ar gael oddi wrth Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu drwy tmweld a www.wcva.org.uk.

Cyfle olaf i enwebu ar gyfer gwobrwyo gwirfoddolwyr

Mae WCVA wedi lansio Gwobrau Gwirfoddolwyr y Flwyddyn sydd eleni yn cael eu cefnogi gan CCLA Investment Management Cyf.

Ers i'r fenter ddechrau ym 2004, mae nifer yr enwebeion wedi cynyddu i dros 200 mewn pum categori, a ddewiswyd i adlewyrchu'r ystod o gyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael ledled Cymru.

Yn ogystal â chydnabod unigolion, pobl ifanc (dan 25 oed) a grwpiau, mae'r hefyd yn gwobrwyo gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr 'gwyrdd'.
Ceir hyd at dri enillydd ymhob categori, sy'n arwain at 15 enillydd cenedlaethol, a bydd yr enillwyr yn cael eu gwobrau mewn seremoni yng Nghaerdydd fis Mehefin, a bydd pawb a enwebir yn cael tystysgrifau clod mewn seremoni leol neu drwy'r post.

Ymhlith Gwirfoddolwyr y Flwyddyn Cymru 2009 oedd ymgyrchydd amgylcheddol 14 oed, cyn athrawes sy'n gweithio ar sail gwirfoddol i'r RSPCA am fwy o oriau na'r rhan fwyaf yn ei gwaith cyflogedig, a chriw o wirfoddolwyr sy'n helpu pobl â nam ar ei golwg – er eu bod hwy eu hunain â nam ar eu golwg neu'n gwbl ddall.

Mae'r cefnogwr newydd ar gyfer 2010, CCLA, yn bodoli i helpu elusennau i wneud y gorau o'u buddsoddiadau. Gweler www.ccla.co.uk am ragor o wybodaeth.

Gellir cael manylion y cynllun gan gynnwys ffurflenni enwebu, drwy gysylltu â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu drwy anfon e-bost at help@wcva.org.uk. Hefyd, gellir eu llwytho i lawr o'r wefan sef www.wcva.org.uk/voty. Y dyddiad cau ar gyfer cael enwebiadau yw 23 Ebrill 2010.

Elusen yn galw ar ddioddefwyr asthma i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cyflwr

Mae Asthma UK Cymru yn galw ar y 314,000 o bobl ag asthma yng Nghymru i'w helpu. Mae'r elusen yn chwilio am wirfoddolwyr a fyddai'n barod i rannu eu hanes i roi syniad i bobl eraill sut beth yw byw ag asthma i helpu ei hymgyrchoedd.

Mae asthma'n effeithio ar un o bob pum aelwyd yng Nghymru ond nid oes gan lawer o bobl syniad pa mor ddifrifol y gall y cyflwr fod nac yn gwybod bod asthma'n dal i ladd dros 60 o bobl y flwyddyn yng Nghymru'n unig.

Mae Asthma UK Cymru yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu i newid hyn drwy godi ymwybyddiaeth o'r cyflwr ac o'r effaith y mae'n gallu ei gael ar fywydau pobl. Mae'r elusen yn gobeithio siarad â phobl ag asthma neu rieni plant sy'n dioddef o'r cyflwr a fyddai'n barod i rannu eu profiadau o fyw ag asthma.

Drwy rannu eu hanes mewn cyhoeddiadau, ac ar gwefannau neu â'r cyfryngau, bydd pobl yn helpu i godi ymwybyddiaeth o ddifrifoldeb asthma ymhlith y cyhoedd a byddant yn ysbrydoli pobl eraill sy'n byw â'r cyflwr i gael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.'

Os ydych chi'n byw ag asthma neu os ydych yn rhiant plentyn ag asthma ac yr hoffech wybod mwy am gyfleoedd gwirfoddoli ag Asthma UK Cymru, ewch i asthma.org.uk/shareyourstory neu ffoniwch 029 2043 5400.

£.5m i hybu gwirfoddoli ymysg pobl ifanc

Er bod nifer sylweddol o wirfoddolwyr ifanc yng Nghymru yn barod, disgwylir y bydd y nifer yn cael hwb eto diolch i £420,000 o gyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fudiadau yn y trydydd sector.

Mae Cynllun Gwirfoddoli ymhlith Pobl Ifanc GwirVol yn cynnig grantiau gwerth hyd at £5,000, £10,000 a £30,000 i grwpiau sydd â gwirfoddolwyr rhwng 16 a 25 oed. Ei nod yw cynorthwyo i gyflwyno a hyrwyddo amrywiaeth eang o gyfleoedd gwirfoddoli newydd.

Mae'r cynllun yn blaenoriaethu mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc o amrywiaeth eang o gefndiroedd, yn enwedig pobl ifanc sydd dan anfantais, gan gynnwys y rheini o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl ifanc ag anableddau corfforol neu anableddau dysgu, a'r rheini nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant. Mae dau fath o grant ar gael:

- **Cyfleoedd** – sy'n cynnig hyd at **£10,000** o nawdd prosiect ar gyfer gweithgareddau sy'n darparu amrywiaeth eang o brofiadau gwirfoddoli newydd ac arloesol i bobl ifanc, naill ai gyda'u mudiad eu hunain neu gyda mudiad arall.
- **Hyrwyddo** – sy'n cynnig hyd at **£5,000** o nawdd prosiect i hyrwyddo gwirfoddoli ymhlith pobl ifanc ac ar eu cyfer drwy gyfrwng digwyddiadau hyrwyddo, gwefannau, arddangosiadau, ymweliadau a dulliau eraill.
- **Rhyngwladol** - sy'n cynnig hyd at £30,000 o nawdd prosiect ar gyfer rhaglen weithgareddau strwythuredig a fydd yn cynnig profiadau gwirfoddoli rhyngwladol o safon i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed. Bydd cynllun Grantiau Gwirfoddoli Rhyngwladol ymhlith Pobl Ifanc GwirVol yn cyfrannu hyd at 80% o gyfanswm costau'r prosiect.

Gellir cael pecynnau ymgeisio gan Lein Gymorth WCVA (0800 2888 329), www.gwirvol.org.uk, neu drwy anfon e-bost at help@wcva.org.uk Rhaid derbyn y ceisiadau erbyn 16 Mehefin 2010.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr Atodiad Cenedlaethol gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.